Cefnogi etholiadau
Seneddol y DU

Y
Comisiwn
Etholiadol

Delio â phapurau pleidleisio amheus

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael
y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall
neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille,
cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2010

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Deddfwriaeth	3
	Penderfyniadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)	3
	Rheolau'r etholiad	3
3	Egwyddorion beirniadu	5
	Diffyg marc swyddogol	6
	Papurau pleidleisio gyda mwy nag un marc	6
	Ysgrifen neu farc y gellir adnabod y pleidleisiwr o'i herwydd	7
	Papurau pleidleisio nad ydynt wedi'u marcio	8
	Di-rym oherwydd ansicrwydd	8
4	Crynodeb	10
5	Enghreifftiau	11
	Cyfeiriadau at gyfraith achosion	11
	Pleidleisiau a ganiateir	12
	Pleidleisiau a wrthodir	27

1 Cyflwyniad

1.1 Cynlluniwyd y llyfryn hwn i gynorthwyo Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) a'u dirprwyon[1] wrth feirniadu papurau pleidleisio amheus yn etholiadau Seneddol y DU. Gallai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddirprwyo'r penderfyniad terfynol ar feirniadu i un neu fwy o ddirprwyon,[2] ond dylid gwneud hyn yn glir yn ysgrifenedig.

1.2 Oherwydd bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cyflawni swyddogaeth statudol wrth feirniadu pleidleisiau amheus, y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) awdurdodedig, nid staff eraill a gyflogir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn y cyfrif, a ddylai gyflawni'r swyddogaeth hon.

1.3 Un o nodau'r llyfryn hwn yw helpu i sicrhau cysondeb ymagwedd ar draws Prydain Fawr gyfan.

1.4 Datblygwyd y llyfryn hwn mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr y gymuned etholiadol ar y Gweithgor Etholiadau a Chofrestru a'r Grŵp Cyd-drefnu Etholiadol,[3] ac mae'r Comisiwn Etholiadol yn ddiolchgar am eu cymorth drwy gydol y broses hon.

1.5 Wrth ymgymryd â beirniadu papurau pleidleisio mae'n bwysig sicrhau bod y broses yn cael ei chynnal yng ngolwg yr holl ymgeiswyr sy'n bresennol ynghyd â'u hasiantau, yn ogystal ag ym mhresenoldeb unrhyw gynrychiolwyr o'r Comisiwn ac arsylwyr achrededig sy'n bresennol.

---

1 Drwy gydol y llyfryn hwn, dylid darllen pob cyfeiriad a wneir at 'ddirprwyon' neu 'ddirprwy' fel 'deputes' neu 'depute' mewn perthynas â'r Alban.

2 Adran 28(5), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

3 Am fwy o wybodaeth ar y ddau grŵp, ewch i www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

1.6 Ni ddylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) aros tan ddiwedd y cyfrif cyn dechrau ar y broses feirniadu; dylid cynnal hyn yn rheolaidd drwy gydol proses y cyfrif.

1.7 Ar ôl delio ag unrhyw bapurau pleidleisio amheus, rhaid i'r rhai y penderfynwyd eu caniatáu gael eu cynnwys yn y cyfrif. Dylid stampio papurau pleidleisio a wrthodir â'r gair 'gwrthodwyd' a'u gosod yn y pecyn priodol. Yn ogystal â hynny, dylid cofio bod rhaid paratoi datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan bob un o'r penawdau canlynol:[4]

- diffyg marc swyddogol
- pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd
- ysgrifen neu farc y gellir adnabod y pleidleisiwr o'i herwydd
- heb ei farcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd

4 Rheol 47(4), Atodlen 1, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

2 Deddfwriaeth

Penderfyniadau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)

2.1 Mae penderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn derfynol, yn amodol yn unig ar adolygiad ar ddeiseb etholiadol.[5]

2.2 Mae disgresiwn y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gyfyngedig i wrthod pleidleisiau ar sail y rhesymau a restrir yn rheolau etholiadau Seneddol y DU yn unig.

Rheolau'r etholiad

2.3 Mae'r rheolau perthnasol ar gyfer etholiadau seneddol y DU wedi'u cynnwys yn Atodlen 1 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 fel a ganlyn:

Papurau pleidleisio a wrthodir

Rheol 47 – (1) Bydd unrhyw bapur pleidleisio –

(a) nad yw'n dwyn y marc swyddogol, neu

(b) y rhoddir pleidleisiau arno ar gyfer mwy nag un ymgeisydd, neu

(c) y mae arno unrhyw beth wedi'i ysgrifennu neu'i farcio y gellir adnabod y pleidleisiwr o'i herwydd ac eithrio'r rhif argraffedig a'r marc adnabod unigryw arall ar y cefn, neu

(d) nad yw wedi'i farcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd,

yn amodol ar ddarpariaethau'r paragraff canlynol nesaf, yn ddi-rym ac ni fydd yn cael ei gyfrif.

(2) Ni ddylai papur pleidleisio lle y marciwyd y bleidlais –

(a) mewn man ac eithrio'r man cywir, neu

5 Rheol 48, Atodlen 1, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

(b) fel arall yn hytrach na thrwy groes, neu

(c) gan fwy nag un marc,

gael ei bennu'n ddi-rym am y rheswm hwnnw os yw bwriad y dylai'r bleidlais fod ar gyfer un neu fwy o'r ymgeiswyr yn ymddangos yn glir ac nad yw'r ffordd y marciwyd y papur ynddo'i hun yn golygu bod modd adnabod y pleidleisiwr ac na ddangosir y gellir ei adnabod o'i herwydd.

(3) Rhaid i'r swyddog canlyniadau ardystio'r gair "gwrthodwyd" ar unrhyw bapur pleidleisio na fydd yn cael ei gyfrif o dan y rheol hon ac mae'n rhaid iddo ychwanegu at yr ardystiad y geiriau "gwrthwynebwyd ei wrthod" os gwneir unrhyw wrthwynebiad i'w benderfyniad gan asiant cyfrif.

(4) Rhaid i'r swyddog canlyniadau lunio datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan yr amryw benawdau canlynol –

(a) diffyg marc swyddogol;

(b) pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd;

(c) ysgrifen neu farc y gellid adnabod pleidleisiwr o'i herwydd; a

(d) heb ei farcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd.

Penderfyniadau ar bapurau pleidleisio

Rheol 48 – Mae penderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar unrhyw gwestiwn yn codi mewn perthynas â phapur pleidleisio yn derfynol, ond gall fod yn destun adolygiad ar ddeiseb etholiadol.

3 Egwyddorion beirniadu

3.1 Dylid gosod unrhyw bapurau pleidleisio amheus mewn blwch er mwyn i'r goruchwyliwr fynd â nhw at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i gael eu beirniadu. Dylid gwirio blaen y papurau pleidleisio'n ofalus am unrhyw farciau rhag ofn bod y pleidleisiwr wedi gwneud unrhyw farciau y tu allan i'r blychau pleidleisio. Mae angen ystyriaeth bellach ar y papurau pleidleisio canlynol:

- diffyg marc swyddogol (nid y marc adnabod unigryw)
- yn pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd
- y rhai lle mae bwriad y pleidleisiwr yn ansicr
- bod arno unrhyw ysgrifen neu farc y gellir adnabod pleidleisiwr o'i herwydd
- unrhyw bapur a rwygwyd neu a ddifwynwyd mewn unrhyw ffordd
- unrhyw bapur ag unrhyw beth anarferol yn ei gylch (er enghraifft unrhyw bapur yr ymddengys iddo gael ei newid, naill ai gydag offeryn ysgrifennu sy'n amlwg yn wahanol neu gyda hylif cywiro)

3.2 Yn achos papurau pleidleisio yr ymddengys iddynt gael eu newid, gall Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried eu pecynnu ar wahân rhag ofn yr wynebir her neu archwiliad maes o law.

3.3 Oni bai bod y papur pleidleisio a farciwyd yn golygu bod modd adnabod y pleidleisiwr, ni ddylid gwrthod papur pleidleisio os yw bwriad y pleidleisiwr yn glir – hyd yn oed os yw'r papur pleidleisio:[6]

- heb ei farcio yn y man cywir
- wedi'i farcio fel arall ac nid trwy groes
- wedi'i farcio gyda mwy nag un marc

6 Rheol 47(2), Atodlen 1, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Diffyg marc swyddogol

3.4 Rhaid i ddiffyg marc swyddogol arwain at wrthod yn awtomatig. Nid oes gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) unrhyw ddisgresiwn.

3.5 Fodd bynnag, lle defnyddiwyd offeryn stampio yn lle marc swyddogol a ragargraffwyd, ni ddylai tylliad neu foglynnu rhannol ar y papur pleidleisio ynddo'i hun esgor ar wrthodiad.[7] Cyhyd ag y bo'n glir fod y papur pleidleisio wedi cael ei stampio gan staff yr orsaf bleidleisio, nid yw'r ffaith fod yr holl biniau heb stampio drwy'r papur pleidleisio neu nad yw'r trydylliad yn gyfan gwbl ar y papur yn berthnasol.

Papurau pleidleisio gyda mwy nag un marc

3.6 Mater i'w benderfynu gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yw hwn.

3.7 Ni ddylai marciau ychwanegol arwain at wrthodiad os yw'n glir na fwriadwyd y marciau hynny fel pleidlais.[8]

3.8 Dylid gwrthod papur a farciwyd gydag 1, 2, 3 a.a. yn hytrach na chroes.[9] Yn yr Alban, fodd bynnag, sylwir y rhoddir ystyriaeth i ganiatáu'r papur pleidleisio fel pleidlais ddilys i'r ymgeisydd y marciwyd y rhif 1 wrth ei enw. Mae hyn o ganlyniad i'r defnydd o'r Bleidlais Drosglwyddadwy Unigol (STV) yn etholiadau llywodraeth leol yr Alban ac oherwydd bod deddfwriaeth ar gyfer etholiadau Seneddol yr Alban yn caniatáu'n benodol i bapur a farciwyd gydag 1, 2, 3 a.a.

---

7 Achos Cirencester, *Lawson v. Chester-Master* (1893) 4 O'M & H 194 ac Achos Newington, *Lewis v. Shepperdson* (1948) 2 All ER 503.

8 *Woodward v. Sarsons* (1875), LR 10, CP74 ac achos Cirencester (1893).

9 *Cornwell v. Marshall* (1977), 75 LGR 676, DC.

gael ei gyfrif fel pleidlais ddilys ar gyfer dewis cyntaf y pleidleisiwr.[10] Mae rheolau etholiad Seneddol yr Alban felly yn rheswm dros ddryswch posib rhwng y gwahanol systemau etholiadol a ddefnyddir. Gellid cymhwyso'r un egwyddor i etholiadau Seneddol y DU i dderbyn papurau pleidleisio a farciwyd gyda'r rhif 1.

Ysgrifen neu farc y gellir adnabod y pleidleisiwr o'i herwydd

3.9 Mae dwy agwedd ar hyn:

- naill ai unrhyw ysgrifennu neu farc ar y papur pleidleisio sydd, ynddo'i hun yn golygu y gellir adnabod y pleidleisiwr, neu
- y gellir adnabod pleidleisiwr drwy ysgrifennu neu farc o'r fath

3.10 Mae'n bwysig cadw mewn cof bod y ddeddfwriaeth yn nodi y **gellir** adnabod y pleidleisiwr, nid efallai y gellir ei adnabod neu ei bod yn bosibl y gellid ei adnabod.

Ysgrifennu neu farc sydd, ynddo'i hun, yn golygu y gellir adnabod y pleidleisiwr

3.11 Dylid gwrthod papur pleidleisio os:

- yw rhif etholwr y pleidleisiwr a ysgrifennwyd ar y papur pleidleisio yn golygu yn ddiamheuol y gellir adnabod y pleidleisiwr
- gallai fod yn rhesymol cymryd bod enw (neu lofnod) neu gyfeiriad unigryw'r pleidleisiwr ar ei flaen

10 Rheol 58(5), Rheolau Etholiadau Seneddol yr Alban, Atodlen 2, Gorchymyn Senedd yr Alban (Etholiadau ac ati.) 2007.

Gellir adnabod y pleidleisiwr yn anuniongyrchol gan unrhyw ysgrifennu neu farc ar y papur pleidleisio

3.12 Nid yw'n ofynnol ar y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i archwilio i'r mater neu ofyn i dystiolaeth gael ei dangos er mwyn adnabod yr ysgrifennu neu'r marc. Ond dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ystyried unrhyw dystiolaeth a roddwyd iddo ar y pryd.

3.13 Lle mae amheuaeth am hunaniaeth y person a farciodd y papur pleidleisio, dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ganiatáu'r papur pleidleisio yn hytrach na'i wrthod.

Papurau pleidleisio nad ydynt wedi'u marcio

3.14 Dylid gwrthod papurau pleidleisio heb eu marcio, hyd yn oed os gellir gweld marc ar gefn y papur pleidleisio ar ei flaen.

3.15 Ni ddylid gwrthod papur pleidleisio a farciwyd gyda rhywbeth ar wahân i bensil oherwydd y rheswm hwnnw yn unig.

3.16 Gall marciau ar wahân i groesau, pa mor aneglur bynnag y bônt, fod yn ddilys o hyd.

Di-rym oherwydd ansicrwydd

3.17 Mae sefydlu bwriad y pleidleisiwr yn hollbwysig wrth bennu papurau pleidleisio amheus.

3.18 Yr ymadrodd allweddol yn y rheolau yw: 'Ni ddylai […] papur pleidleisio […] gael ei bennu'n ddi-rym os bydd bwriad y dylai'r bleidlais fod ar gyfer un o'r ymgeiswyr yn ymddangos yn **glir**'.[11]

11 Rheol 47(2), Atodlen 1, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

3.19 Dylid ystyried pob papur pleidleisio yn ôl ei rinweddau ei hun a dylid gwneud penderfyniadau ar sail achosion unigol.

3.20 Y cwestiwn allweddol y dylai Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ei ofyn yw a yw'r pleidleisiwr, ar wyneb y papur, wedi nodi bwriad eithaf clir i bleidleisio dros ymgeisydd.

4 Crynodeb

4.1 Mae'r egwyddorion y dylid eu cymhwyso wedi'u nodi ar dudalennau 5-8. Mewn termau ymarferol, gellir crynhoi'r **ymagwedd gyffredinol** fel a ganlyn:

- byddwch yn glir ac yn gyson bob amser
- cymerwch amser i sicrhau bod penderfyniad ystyrlon yn cael ei roi ym mhob achos
- ceisiwch ganiatáu, nid gwrthod
- wrth ystyried y rhesymau dros wrthod ar sail pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd:
  - ceisiwch, lle bynnag y bo'n bosibl, bennu bwriad y pleidleisiwr a'i weithredu
  - ceisiwch ganiatáu pan fydd bwriad yr ymgeisydd yn eithaf clir, yn hytrach na gwrthod y papur pleidleisio

5 Enghreifftiau

5.1 Mae'r enghreifftiau a roddir yma wedi'u seilio ar gyfraith achos neu wedi'u cymryd o'r rheolau penodol ar gyfer etholiadau Seneddol y DU. Yn y pen draw, mae'r penderfyniad ar unrhyw bapur pleidleisio penodol i'w wneud gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'u cyfrifoldeb nhw yw pennu eu barn eu hunain ar gymhwyso'r gyfraith. Cyfeirir at reolau etholiadau Seneddol y DU yn Atodlen 1 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Cyfeiriadau at gyfraith achosion

Defnyddir cyfeiriadau talfyredig ar gyfraith achos trwy'r llyfryn hwn. Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r cyfeiriadau llawn at gyfraith achos.

Talfyriad	Cyfeiriad Llawn
Achos Berwick-upon-Tweed	Achos Berwick-upon-Tweed [1880] 3 O'M&H 178
Achos Buckrose	Achos Buckrose, *Sykes v. McArthur*[1886] 5 O'M&H 110
Achos Cirencester	*Lawson v. Chester Master* [1893]
Cornwell v Marshall	*Cornwell v. Marshall* [1977] 75 LGR 676 DC
Eley v Durant	*Eley v. Durant* [1900] 4SJ 430
Levers v Morris	*Levers v. Morris* [1971] 3 All ER QBD
Rowe v Cox	*Rowe v. Cox* [2001] QBD, Achos M/294/01
Ruffle v Rogers	*Ruffle v. Rogers* [1982] QB 1220
Achos South Newington	Achos South Newington, *Lewis v. Shepperdson* [1948] 2 All ER 503
Achos West Bromwich	Achos West Bromwich, *Hazel v. Viscount Lewisham* [1911] 6 O'M&H 256
Woodward v Sarsons	*Woodward v. Sarsons* [1875] LR10 CP 733

Pleidleisiau a ganiateir

Mae'r canlynol yn enghreifftiau awgrymedig o bleidleisiau a ganiateir.

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Boots – Achos Cirencester, *Eley v. Durant* a Rheol 47(2)(c).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	X

Caniatáu ar gyfer Miller – *Woodward v. Sarsons* a Rheol 47(2)(c).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Boots – Rheol 47(2)(b) and (c).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	Hood Plaid y Fforest!
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Hood – *Ruffle v. Rogers* a Rheol 47(2)(b).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Miller – Achos West Bromwich a Rheol 47(2)(a).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Clover – Rheol 47(2)(b).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	X
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Barber – Achos Berwick-upon-Tweed a Rheol 47(2)(a).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	Iawn
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Grey – Rheol 47(2)(b).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Miller – Rheol 47(a) a (b).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Boots – Rheol 47(2)(b).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	Ethol BARBER
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Barber – *Ruffle v. Rogers* a Rheol 47(2)(a) a (b) [ar yr amod nad oes ymgeisydd arall o'r enw Barber].

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Miller – Rheol 47(2)(a) a (b).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Barber – *Levers v. Morris* a Rheol 47(2)(a).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Clover – *Levers v. Morris* a Rheol 47(2)(b). Gw. hefyd *Schofields's Election Law*, Cyfrol 5, Atodiad E, E20, (Shaw & Sons, 2008 fel y'i diweddarwyd gan rifyn atodiad rhif 1).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	X
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Caniatáu ar gyfer Boots – *Levers v. Morris* a Rheol 47(2)(b). Gw. hefyd *Schofield's Election Law*, Cyfrol 5, Atodiad E, E20, (Shaw & Sons, 2008 fel y'i diweddarwyd gan rifyn atodiad rhif 1).

Pleidleisiau a wrthodir

Mae'r canlynol yn enghreifftiau awgrymedig o bleidleisiau a wrthodwyd.

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Gwrthod – yn pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd. Rheol 47(1)(b).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Gwrthod – bwriad y pleidleisiwr yn ansicr. Achos Buckrose a Rheol 47(1)(d)

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	X
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	E Brown 99 Poppy Drive
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Gwrthod – gellir adnabod y pleidleisiwr. *Woodward v. Sarsons*, achos South Newington a Rheol 47(1)(c).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	X
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Gwrthod – yn pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd. Rheol 47(1)(b).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Gwrthod – bwriad y pleidleisiwr yn ansicr. *Rowe v. Cox* a Rheol 47(1)(d).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	X
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	X
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	X
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	X
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	X

Gwrthod – yn pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd. Rheol 47(1)(b).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	M.Jones AB 561
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Gwrthod – gellir adnabod y pleidleisiwr. *Woodward v. Sarsons* a Rheol 47(1)(c).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	Dim un ò r uchod ✓

Gwrthod – bwriad y pleidleisiwr yn ansicr. Rheol 47(1)(d).

VOTE FOR ONE CANDIDATE ONLY PLEIDLEISIWCH DROS UN YMGEISYDD YN UNIG		
1	**BARBER** **Ali Barber** 46 Anytown Close, Anytown AT34 6CY Annibynnol	2
2	**BOOTS** **Dusty Boots** 63 Acacia Avenue, Anytown AT33 5XZ League of Line Dancers	1
3	**CLOVER** **Elizabeth Mary Clover** (address in the Any Town Constituency) Annibynnol	4
4	**GREY** **Earl Grey** (address in the Any Town Constituency) Mad Hatter's Tea Party	3
5	**BARBER** **Ali Barber** (address in the Any Town Constituency) The Forest Party	
6	**MILLER** **Windy Miller** 7 Daisy Drive, Anytown AT12 7EY Alternative Power Forum	

Gwrthod – yn pleidleisio dros fwy nag un ymgeisydd. *Cornwell v. Marshall* a Rheol 47(1)(b). Noder: yn yr Alban, rhoddir ystyriaeth i ganiatáu'r papur pleidleisio fel pleidlais ddilys dros yr ymgeisydd y marciwyd y rhif 1 wrth ei enw.

Sut i gysylltu â ni

Y Comisiwn Etholiadol
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0500
Ffacs: 020 7271 0505
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa'r Alban
38 Thistle Street
Edinburgh EH2 1EN
Ffôn: 0131 225 0200
Ffacs: 0131 225 0205
infoscotland
@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog
1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE
Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
infowales@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Gogledd Iwerddon
Seatem House
28–32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN
Ffôn: 028 9089 4020
Ffacs: 028 9089 4026
infonorthernireland
@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
East and South East Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0600
Ffacs: 020 7271 0505
eastandsoutheast
@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
London Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0689
Ffacs: 020 7271 0505
london@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Midlands Office, No 2 The Oaks
Westwood Way, Westwood Business Park
Coventry CV4 8JB
Ffôn: 02476 820086
Ffacs: 02476 820001
midlands@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
North of England Office
York Science Park
IT Centre, Innovation Way
Heslington
York YO10 5DG
Ffôn: 01904 567990
Ffacs: 01904 567719
north@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
South West Office
Regus
1 Emperor Way
Exeter Business Park
Exeter EX1 3QS
Ffôn: 01392 314617
Ffacs: 01392 314001
southwest@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW

Ffôn 020 7271 0500
Ffacs 020 7271 0505
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

I gysylltu â'n swyddfeydd yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr, gweler y tu mewn i glawr y cefn am fanylion.

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw hygrededd y broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd ynddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

Mae democratiaeth yn cyfrif